**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 10 Mehefin 2003

**Amser:** 9:30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

| **Presennol:** | (Democrat Rhyddfrydol) |
|---|---|
| Eleanor Burnham | |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Christine Chapman | (Llafur) |
| Jeff Cuthbert | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwyr) |
| Irene James | (Llafur) |
| Elin Jones | (Plaid Cymru) |
| Laura Jones | (Ceidwadwyr) |
| Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Catherine Thomas | (Llafur) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Dim.

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**
1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i Gyfarfod cyntaf swyddogol y Pwyllgor yn ystod ail gyfnod Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.2 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod y mwyafrif o'r offerynnau statudol yn cael eu drafftio yn Saesneg ar hyn o bryd ac yna'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg gan dîm o gyfieithwyr cyfreithiol yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, er mai'r nod terfynol yw drafftio'r holl ddeddfwriaeth yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Cynigiodd y cyfieithwyr fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor er mwyn gwneud cyflwyniad byr ynglyn â'u gwaith ac i ateb unrhyw gwestiwn a allai godi. Penderfynwyd gwahodd y cyfieithwyr i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Deddfau ar 24ain Mehefin 2003. **Gweithredu: Clerc.**

1.3 Nododd y Cadeirydd, gan fod pob Aelod wedi cael gwybodaeth am gylch gwaith a swyddogaethau'r Pwyllgor yn ogystal â sesiwn friffio ar lafar ar y pwnc, y gallai'r Pwyllgor drafod yr Offerynnau Statudol ar yr agenda ar unwaith. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid newid y ffordd y cyflwynir adroddiadau'r Ymgynghorwyr Cyfreithiol i'r Pwyllgor. Dim ond yr Offerynnau Statudol hynny ag ymholiadau neu bryderon yn eu cylch a fyddai'n cael eu trafod gan yr Aelodau. Cytunodd yr Aelodau.

**Eitem 2: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC683 – Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) (Diwygio) 2003**
2.1 Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

2.2 Nododd Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor bwynt ynghylch y geiriad o ran enwi pwerau, ond mae hyn bellach wedi cael ei gywiro mewn fersiwn ddiwygiedig o'r rheoliadau.

2.3 Fodd bynnag, hysbysodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor fod mater arall wedi codi ers hynny o ran dyddiad Dod i Rym anghywir. Ar ôl ystyried adroddiad diwygiedig yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad bod hynny'n bwynt y mae'n rhaid ei ystyried fel drafftio diffygiol a'i nodi o dan reol sefydlog 11.5. Felly, mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio ymddangosiadol o ran y dyddiad Dod i Rym. Gellid ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

2.4 Atodir adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau fel LC683 (Adroddiad).

**LC684 – Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003**
2.5 Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

2.6 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

2.7 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC684 (Adroddiad).

2.8 Tynnodd y Cadeirydd sylw Aelodau'r Pwyllgor at y ffaith bod arfarniad rheoleiddiol yr Offeryn Statudol hwn wedi'i ddosbarthu iddynt er gwybodaeth. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y Pwyllgor Busnes, ar 4ydd Chwefror, wedi gofyn i'r Pwyllgor Deddfau am ei farn ynglyn ag argymhelliad Grwp Adolygu

Gweithdrefnau'r Cynulliad y dylai'r Pwyllgor Deddfau allu adrodd i'r Cyfarfod Llawn "os yw o'r farn na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofynion statudol, gan gynnwys gofynion trefniadol mewn rheolau sefydlog". Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor, anfonodd y Cadeirydd lythyr yn cefnogi argymhelliad Grwp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad. Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y mater ar 4ydd Mawrth a phenderfynwyd y byddai Rheolwyr Busnes yn ymgynghori â'u grwpiau ac yn aildrafod y mater ar 18fed Mawrth. Gan nad oedd y Pwyllgor Deddfau wedi clywed unrhyw beth ynglyn â'r mater hwn ers hynny, penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes i ganfod pa gasgliad (os o gwbl) y daethpwyd iddo yn hyn o beth. **Gweithredu: Clerc/Ymgynghorydd Cyfreithiol.**

**LC682 – Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau'r Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2003**

2.9 Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

2.10 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

2.11 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC682 (Adroddiad)

2.12 Codwyd cwestiwn ynglyn â phriodolrwydd y dewis o weithdrefn o ran yr Offeryn Statudol hwnnw. Nodwyd, er bod y dewis o weithdrefn yn gwestiwn a oedd y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor, roedd diffyg gweinyddiaeth yn dal o fewn ei gwmpas. Felly, pwysleisiwyd y ffaith y dylai'r Pwyllgor hysbysu'r Gweinidog perthnasol os credir nas ymdriniwyd â deddfwriaeth yn effeithlon, h.y. os ymdriniwyd â mater nad oedd yn un brys drwy weithdrefn frys yn hytrach nag un safonol. Crybwyllwyd, o'r 22 o offerynnau statudol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor, bod 20 ohonynt wedi dilyn y weithdrefn weithredol. Er na chynhaliwyd cyfarfodydd llawn yn ystod cyfnod yr etholiad ac felly bu'n rhaid datrys rhai materion pwysig drwy'r weithdrefn weithredol, ychydig iawn o lythyrau esboniadol a oedd yn nodi'r etholiad fel rheswm am ddewis y weithdrefn. Cynghorwyd yr Aelodau, yn debyg i'r cwestiwn o ran arfarnu rheoleiddiol, mai dim ond rhoi sylwadau ar y dewis o weithdrefn o ran cydymffurfio â rheolau sefydlog y gallai'r Pwyllgor ei wneud (ac yna dim ond os gweithredwyd argymhelliad y Grwp Adolygu) gan fod materion polisi y tu allan i'w gwmpas. Penderfynwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol o ran defnyddio'r weithdrefn Weithredol yn yr achos hwn ac anfon copi o'r llythyr at y Prif Weinidog, y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes ac Aelodau'r Pwyllgor Deddfau. **Gweithredu: Clerc/Ymgynghorydd Cyfreithiol.**

2.13 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol.

**LC685 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC686 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC687 – Gorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw (Newid Ffiniau) (Cymru) 2003**

**LC688 – Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2003**

**LC689 – Gorchymyn Gweinyddu Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti (Cymru) 2003**

**LC690 – Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003**

**LC691 – Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2003**

**LC692 – Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Diwygio) 2003**

**LC693 – Rheoliadau Bwrdd Iechyd Lleol Powys (Swyddogaethau Ychwanegol) 2003**

**LC694 – Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC695 – Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC696 – Rheoliadau Cartrefi Gofal (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC697 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Cyfleustodau) (Gwerth Ardrethol) (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC698 – Rheoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003**

**LC699 – Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC700 – Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC701 – Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003**

**LC702 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2003**

**LC703 – Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003**

**Eitem 3: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
3.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 17 Mehefin 2003